37 awr yr wythnos

Swydd-ddisgrifiad

Teitl y swydd**:**	**Swyddog Cydlynu cynllun CDG T.Ff. Mentrau'r Gogledd**	Graddfa 2
Yn atebol i:	Cyfarwyddwr Datblygu (MIConwy)yn ddyddiol. I bwyllgor y cyfarwyddwyr yn derfynol.	35 – 36 sef £29,236 (pro rata 5 diwrnod)

Lleoliad = Swyddfa Mentar Iaith Conwy, Llanrwst

Cefndir y Cynllun

Bydd y prosiect yn adeiladu ar lwyddiant prosiectau cynllun busnes 1 CDG Conwy y bu i Fenter Iaith Conwy eu cynnal. Bydd y prosiect yn datblygu'r ddarpariaeth ar draws chwe sir y Gogledd.

Prosiect 1 – Cyfleodd i siaradwyr Cymraeg ymgymryd â hyfforddiant fydd yn arwain at gymwysterau mewn nifer o gampau awyr agored ac at gyflogaeth neu sefydlu busnes gweithgareddau awyr agored.

Prosiect 2 – Cyfleodd i ddysgu'r Gymraeg ar lefel uwch yng Nghonwy wledig neu fynychu cyrsiau preswyl yn Nant Gwrtheyrn – canolfan arbennig sy'n darparu cyrsiau Cymraeg i ddysgwyr yn rhan o Ganolfan Cymraeg i Oedolion (Prifysgol Bangor).

Prosiect 3 – Cyfieithu Cymunedol– creu swyddi a darparu gwasanaeth cyfieithu trwy hyfforddi gwirfoddolwyr a gweithwyr yn barod at ennill cymwysterau a mynd yn eu blaenau at swyddi gwell.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf mae'r prosiectau hyn wedi bod ar waith yng Nghonwy wledig dan gam cyntaf CDG.

Cynllun Busnes 1 Conwy (Menter Iaith Conwy)

Hyfforddiant Awyr Agored

Mae'r prosiect yma wedi bod yn hynod o boblogaidd ac mae mwy o bobl wedi derbyn hyfforddiant na'r hyn yr oeddem ni wedi ei ddisgwyl. Mae 150 o bobl wedi mynychu'r cwrs, 15 ohonyn nhw wedi dod o hyd i waith o ganlyniad. Ond rydym yn aros i glywed am rhai sydd newydd hyfforddi hyd diwedd mis Awst.

Gwersi Cymraeg i Niferoedd Isel

Bwriad y prosiect yma ydi rhoi cyfle i bobl sy'n byw yng Nghonwy wledig fynychu gwersi Cymraeg lefel uwch, cyrsiau fyddai fel arall wedi eu canslo os na fyddai o leiaf 8 o bobl wedi cofrestru ar eu cyfer. Oherwydd bod darparwyr yn canslo gwersi ychydig iawn o gyrsiau lefel uwch oedd yng Nghonwy wledig - colled mawr i ddysgwyr yr ardal. Yn ystod y prosiect yma aeth 133 o ddysgwyr i Nant Gwrtheyrn a 45 i gyrsiau yng Nghonwy wledig.

Cyfieithu Cymunedol

Sefydlwyd y cynllun yma oherwydd y galw mawr am wasanaeth cyfieithu a gwasanaeth cyfieithu ar y pryd rhesymol yn y sector cymunedol. Hefyd, nid oedd yna gyfloed i bobl ifanc dderbyn hyfforddiant nac ennill profiad yn y maes i ddatblygu eu sgiliau i lefel broffesiynol.

Mae'r prosiect wedi creu marchnad gyfieithu newydd i'r sector cymunedol – marchnad nad oedd yn bodoli o'r blaen oherwydd y gost. Trwy hyfforddi gwirfoddolwyr mae nifer o sefydliadau cymunedol wedi llwyddo i ddefnyddio staff eu hunain i gyfieithu. Hyd yn hyn mae tri chyfieithydd dan hyfforddiant wedi mynd yn eu blaenau at waith gwell yn dilyn eu cyfnod gyda Chyfieithu Cymunedol.

Rydym ni wedi derbyn arian cyfatebol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Maen nhw eisiau i ni ymestyn y gwasanaeth ar draws y Gogledd drwy dalu cyfieithwyr ar y pryd proffesiynol a phrofiadol i neud y gwaith gan nad oes modd i'r ddau gyfieithydd profiadol sydd yn Cyfieithu Cymunedol ei wneud heb gymorth eraill. Bydd y cyfieithwyr yma hefyd yn mentora cyfieithwyr dan hyfforddiant o'u hardal benodol.

Y Mentrau Iaith (Y Partneriaid)

Mae Mentrau Iaith yn gyrff sydd wedi eu sefydlu i hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg ar lefel gymunedol. Maent yn atebol i bwyllgorau lleol sydd yn cynrychioli'r ardaloedd. Yn aml mae gan y mentrau nifer o is-bwyllgorau lleol sydd yn eu cynorthwyo i lunio rhaglenni gwaith ac ymateb i anghenion lleol. Fel yn yr achos yma, "galw lleol" sydd wedi sbarduno'r Mentrau i gyflwyno'r cais.

Sefydlwyd Menter Iaith Môn ym 1997, Conwy a Dinbych ym 1998, Wrecsam a Sir y Fflint ym 1999. Daeth Menter Iaith Gwynedd yn rhan o'r Cyngor Sir yn 2010, er iddo gael ei sefydlu yn wreiddiol ym 1997. Mae yna rwydwaith cenedlaethol sy'n cydweithio drwy Fentrau Iaith Cymru ond rhanbarth Mentrau'r Gogledd sy'n cydweithio i gyflwyno'r cais yma.

Er bod Mentrau'r Gogledd ag amcanion tebyg maen nhw'n pennu eu rhaglen waith eu hunain yn dibynnu ar natur ieithyddol eu siroedd. Cânt eu rheoli gan bwyllgorau gwirfoddol a chan nifer o staff cyflogedig. Daw eu grant craidd o **Fwrdd yr Iaith Gymraeg** (BYIG) ac maen nhw'n caffael grantiau eraill o ffynhonnell wahanol. (e.e. 30% o arian Menter Iaith Conwy sy'n dod o BYIG). Mae'r Mentrau Iaith yn brif partneriad i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac maent yn gymorth i weithredu strategaethau Cenedlaethol ac datblygu cynlluniau lleol yn ôl ŷ galw. Wrth i BYIG gael ei dynnu mewn i Lywodraeth Cymru bydd swyddogaeth y Mentrau fel gweithredwyr cymunedol yn parhau.

Bydd gofyn i'r unigolyn llwyddiannus fod yn frwd dros barhad a datblygiad y Gymraeg.

Dyletswyddau a Chyfrifoldebau - Penodol i'r Swydd

1. Cydlynu y cynllun ar draws y 6 sir. Trefnu Pwyllgor Rheoli fydd a chynrechiolaeth o'r chwech sir er mwyn lliwio'r cynllun.

2. Sefydlu system weinyddol y cynllun fydd yn arwain at cyflwyno hawliadau.

3. Sicerhau fod y "Swyddog Gweinyddol tim CDG" y cynllun yn prosesu'r hawliadau.

4. Sicerhau fod pob partner yn ymwybodol o'i dyletswyddau ac yn eu cynorthwyo i farchanata'r a gweithredu'r cynllun.

5. Cydweithio efo staff "gweithredol" y cynllun fydd yn darparu y gwasanaethau a'r lawr gwlad trwy;

    - Cynorthwyo'r Swyddog Awyr Agored a Swyddog Cyfieithu Cymunedol a darparwr y Gwersi Cymraeg i weinyddu a marchnata'r cynllun ar draws y Gogledd.

    - Cynorthwyo Swyddogion ein prif partneriad y cynllun i'w weithredu. Cynorthwyo efo materion marchnata a gweinyddu taliadau.

6. Cynorthwyo'r Swyddog Cyllid Menter Iaith Conwyi ddarparu rheolaeth cyllidol effeithiol o'r cynllun i Menter Iaith Conwy ac eu is-gwmnïau.

7. Cadw gorolwg o wariant a "Performance Indicators" y cynllun er mwyn sicerhau ei fod yn cyrraedd ei nod.

Dyletswyddau a Chyfrifoldebau - Cyffredinol

1. Bod yn gyfrifol am sefydlu perthnasau gwaith da yn fewnol ac yn allanol.

2. Cydymffurfio efo Polisïau a Gweithdrefnau'r Fenter a rhoi gwybod i'r Cyfarwyddwr am unrhyw feysydd nad ydynt yn cael eu trin yn ddigonol.

3. Bod yn gyfrifol am weithio mewn modd sy'n ymlynu wrth arferion Iechyd a Diogelwch yn eich gwaith dyddiol, gan rannu cyfrifoldeb am Iechyd a Diogelwch yn y Fenter yn gyffredinol.

MANYLION UNIGOLYN

Ffactor	Gofynion	Sut bydd yn cael ei brofi	H - Hanfodol D - Dymunol
Gwybodaeth a Sgiliau	Safon dda o addysg, yn ddymunol isafswm o 5 TGAU Gradd A-C neu gyfwerth	*FfG/Ca*	*H*
	NVQ 2 neu gymhwyster cyfatebol mewn Gweinyddiaeth Busnes	*FfG/Ca*	*D*
	Sgiliau rhifedd/llythrennedd da	*FfG*	*H*
	Cymhwyster ECDL	*FfG/C*	*D*
	Profiad cyffredinol mewn gwaith clerigol/gweinyddol	*FfG*	*H*
	Gallu cyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg	*FfG/C*	*H*
	Profiad o ddefnyddio systemau TG h.y. meddalwedd Microsoft	*FfG/C*	*H*
Creadigrwydd ac Arloesi	Y gallu i weithio o dan bwysau ac ar eich liwt eich hun	*FfG/C*	*H*
	Gallu cofnodi data yn gyflym ac yn gywir	*C*	*H*
	Bod yn hyblyg ac yn frwdfrydig gyda lefel uchel o ysgogiad	*FfG/C*	*H*
	Y gallu i drefnu cyfarfodydd a cymryd cofnodion		
Cysylltiadau a Pherthynas	Gallu gweithio'n effeithiol ar eich pen eich hun ac fel rhan o dîm	*C*	*H*
Penderfyniadau/ Argymhellion	Gallu gwneud penderfyniadau eich hunain ar faich gwaith yn ddyddiol.	*C*	*H*
	Y gallu i gyfrannu wrth wneud penderfyniadau yn ystod cyfarfodydd tîm i ddatblygu a gwella ymarferion gweithio.	*C*	*H*
Adnoddau	Profiad blaenorol o fod yn gyfrifol am gyfrif arian man	*FfG/C*	*D*
Gofynion Corfforol	Gallu cyflawni dyletswyddau swyddfa arferol, a hyblygrwydd i weithio yn achlysurol y tu hwnt i oriau gwaith arferol pe bae angen (trwy	*C*	*H*

	drefniant o flaenllaw).		

Sylwer: Er mwyn cael cyfweliad ar gyfer y swydd hon rhaid i chi brofi eich bod yn bodloni'r holl feini prawf a nodir fel H - Hanfodol

Cais trwy lythyr a CV erbyn y 6ed o Ionawr 2012. Anfonwch at meirion@menteriaithconwy.cymru247.net neu Meirion Ll Davies, Swyddfa Menter Iaith Conwy, y Sgwar, Llanrwst, Sir Conwy, LL26 OLG.